**Sesiwn 1999-2000 Rhif 59**

**PAPURAU BUSNES**

**PLEIDLEISIAU A THRAFODION DYDD MAWRTH, 28 MAWRTH 2000**

**RHAN 2 – ADRAN H**

**Cychwynnodd y cyfarfod am 2pm**

**Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd**
Gofynnwyd y **5** cwestiwn cyntaf

**2.37pm**

**Datganiad: Gwnaeth y Prif Ysgrifennydd ddatganiad ar y grant Cymorth Dewisol Rhanbarthol ar gyfer yr Airbus ym Mrychdin.**

**3.00pm**

**Datganiad: Gwnaeth y Prif Ysgrifennydd ddatganiad ar Forglawdd Bae Caerdydd**

**3.22pm**

**Pwyntiau o Drefn:**

Cododd **Helen Mary Jones** bwynt o drefn i atgoffa'r Cynulliad o'r oriau gwaith a bennir yn y Rheolau Sefydlog a gofynnodd i'r Llywydd atgyfnerthu'r oriau teulu-gyfeillgar. Dywedodd hefyd iddi deimlo bod y sylwadau a wnaed yn gynharach am ei statws personol yn sarhaus.

Dywedodd **David Davies** nad oedd wedi enwi Helen Mary Jones na chyfeirio at ei statws personol.

Atgoffwyd yr Aelodau gan y **Llywydd** bod oriau gweithio'r Cynulliad wedi'u pennu yn Rheolau Sefydlog 5.1 a 5.2.

Cododd **Alun Michael** bwynt o drefn ynghylch haeriad ffug a wnaed amdano pan yr oedd yn Brif Ysgrifennydd a gofynnodd i'r Llywydd am gyngor gan awgrymu y dylai unrhyw aelod sy'n

gwneud haeriad orfod ei gadarnhau.

Dywedodd y **Llywydd** ei fod yn ddiolchgar iddo a bod canllawiau wrthi’n cael eu paratoi.

Cododd **Phil Williams** bwynt o drefn ar fater a godwyd y llynedd ynghylch defnyddio’r term "Cynulliad Cenedlaethol". Roedd yn ofidus bod penderfyniadau a oedd wedi’u gwneud gan y Cabinet yn cael cyhoeddusrwydd fel penderfyniadau’r Cynulliad. Awgrymodd y dylid cyfeirio at benderfyniadau a wnaed gan y Cabinet fel penderfyniadau "Llywodraeth Cymru".

Dywedodd y **Prif Ysgrifennydd** na allai ragweld anawsterau i newid y ffordd y cyhoeddid penderfyniadau.

Dywedodd y **Llywydd** ei fod yn ddiolchgar i’r Prif Ysgrifennydd ac y byddai’n ceisio sylwadau ar y mater.

Cododd **Nick Bourne** bwynt o drefn o dan Reol Sefydlog 1.9 ynghylch annibyniaeth y Llywydd gan dynnu sylw’r Llywydd at ymosodiad a wnaed ar ei amhleidedd yng nghynhadledd y Blaid Lafur yr wythnos ddiwethaf.

Mynegodd y **Llywydd** ei ddiolch iddo am hyn.

Cododd **Ieuan Wyn Jones** bwynt o drefn ynghylch mater a gododd mewn Pwyllgor Busnes y bore hwnnw ynghylch gwasanaeth cyfieithu i grwpiau pleidiau a gofynnodd am benderfyniad ar adnoddau ar gyfer hyn cyn dechrau’r flwyddyn ariannol newydd.

Dywedodd y **Llywydd** fod hyn yn fater pwysig i’r Cynulliad yn ei gyfanrwydd ac y byddai’n dod yn ôl ato ar ôl cael cyngor.

Dywedodd **Jane Davidson** y bydd y mater yn mynd ger bron Pwyllgor y Ty ar 13 Ebrill ac y byddai’r Pwyllgor Busnes cyntaf ar ôl toriad y Pasg yn ail-edrych ar y mater.

**3.43pm**

**Datganiad Busnes: y Trefnydd**
Cytunwyd ar y datganiad busnes.

**Cynigion Trefniadol**

1. Gan i’r Trefnydd ddweud yn ei ddatganiad y byddai amser yn cael ei neilltuo yr wythnos nesaf i drafod yr adeilad newydd, tynnodd Peter Black (Gorllewin De Cymru) ei Gynnig Trefniadol o dan Reol Sefydlog 6.9 i ofyn am ddadl ar y cynnig a ganlyn ar adeilad newydd y

Cynulliad fel mater o bwysigrwydd cyhoeddus brys:

Mae'r Cynulliad hwn am i'r adolygiad o brosiect yr adeilad newydd fod yn agored ac yn dryloyw ac am i'r holl wybodaeth fod ar gael i'r cyhoedd ar ddiwedd y broses honno. Mae'r Cynulliad hwn am weld adroddiad yr Archwiliwr Cyffredinol ar yr adeilad newydd yn cael ei gyflwyno i'r Cynulliad cyn gynted â phosibl fel bod modd cwblhau'r adolygiad o fewn tri mis.

2. Cynigiodd y Trefnydd Gynnig Trefniadol o dan Reol Sefydlog 6.16 i gynnal etholiadau i'r 7 pwyllgor pwnc fel yr eitem gyntaf o fusnes ddydd Mercher 29 Mawrth.

Cymerwyd pleidlais:

O blaid 47

Ymatal 0

Yn erbyn 0

Cyfanswm 47

**Cymeradwywyd y cynnig**

**3.50pm**

**Cymeradwyo Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Darpariaethau Malldod) (Cymru) 2000**

***Cynnig bod y Cynulliad yn:***

(a) ystyried egwyddor Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Darpariaethau Malltod) (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mawrth 2000

Cymerwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn:

O blaid 41

Ymatal 0

Yn erbyn 0

Cyfanswm 41

**Cytunwyd ar egwyddor y Gorchymyn**

***Cynnig bod y Cynulliad yn:***

(a) ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau ar Orchymyn drafft Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Darpariaethau Malltod) (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mawrth 2000.

(b) cymeradwyo bod y Gorchymyn wedi'i wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mawrth 2000

Cymerwyd pleidlais ar y Gorchymyn:

O blaid 40

Ymatal 0

Yn erbyn 0

Cyfanswm 40

**Cymeradwywyd y Gorchymyn**

**3.57pm**

**Cymeradwyo Gorchymyn y Diwydiant Cyflenwi Trydan (Gwerth Ardrethol) (Cymru) 2000**

***Cynnig bod y Cynulliad yn:***

Ystyried egwyddor Gorchymyn y Diwydiant Cyflenwi Trydan (Gwerthoedd Ardrethol) (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mawrth 2000

Cymerwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn:

O blaid 44

Ymatal 0

Yn erbyn 0

Cyfanswm 44

**Cytunwyd ar egwyddor y Gorchymyn**

***Cynnig bod y Cynulliad yn:***

(a) ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau ar Orchymyn drafft Gorchymyn y Diwydiant Cyflenwi Trydan (Gwerthoedd Ardrethol) (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mawrth 2000.

(b) cymeradwyo bod y Gorchymyn wedi'i wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mawrth 2000

Cymerwyd pleidlais ar y Gorchymyn:

O blaid 44

Ymatal 0

Yn erbyn 0

Cyfanswm 44

**Cymeradwywyd y Gorchymyn**

**4.18pm**

**Cymeradwyo Gorchymyn Treth Gyngor (Atebolrwydd Perchnogion i Dalu) (Diwygio) (Cymru) 2000**

***Cynnig bod y Cynulliad:***

Yn ystyried egwyddor y Rheoliadau Treth Gyngor (Atebolrwydd Perchnogion i Dalu) (Diwygio) (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mawrth 2000

Cymerwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn:

O blaid 47

Ymatal 0

Yn erbyn 0

Cyfanswm 47

Cytunwyd ar egwyddor y Gorchymyn

***Cynnig bod y Cynulliad yn:***

(a) ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau ar Orchymyn drafft y Rheoliadau Treth Gyngor (Atebolrwydd Perchnogion i Dalu) (Diwygio) (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mawrth 2000.

(b) cymeradwyo bod y Gorchymyn wedi'i wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mawrth 2000

Cymerwyd pleidlais ar y Gorchymyn:

O blaid 45

Ymatal 0

Yn erbyn 0

Cyfanswm 45

Cymeradwywyd y Gorchymyn

**4.36pm**

**Dadl ar Gyllideb Canghellor y Trysorlys**

Cynnig bod y Cynulliad yn croesawu'r £1.4 biliwn yn ychwanegol sy'n dod i Gymru yn sgil cyllideb Canghellor y Trysorlys a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2000 a manteision positif yr arian hwnnw i'r Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
**Gwelliant 1 - Dafydd Wigley (Caernarfon);**

Yn llinell 1, dileu "croesawu" gan ychwanegu:

"tra'n croesawu bod y llywodraeth yn cydnabod, o'r diwedd, yr angen am wariant cyhoeddus ychwanegol."

**Tynnwyd y gwelliant yn ôl.**

**Gwelliant 2 - Dafydd Wigley (Caernarfon);**

Ar ddiwedd y cynnig, ychwanegu'r pwyntiau bwled canlynol:

Mae'r Cynulliad hwn:

yn nodi â phryder y ffordd y mae Fformwla Barnett yn arwain at godiad cymharol is yn yr arian a ddyrannwyd i Gymru o'i gymharu â Lloegr.

yn gresynu bod y Canghellor wedi methu â gweithredu i ddelio ag effaith niweidiol y gyfradd gyfnewid gyfredol ar amaethyddiaeth, twristiaeth a gweithgynhyrchu, gan gynnwys dur yng Nghymru

yn galw ar awdurdodau lleol Cymru i sicrhau bod yr arian y bwriadwyd iddo gael ei ddefnyddio ar gyfer addysg yn cyrraedd yr ysgolion er mwyn i ddisgyblion fanteisio arno i'r graddau mwyaf posibl.

yn gresynu bod y Canghellor wedi methu â darparu cyllid ar gyfer Amcan 1, 2 neu 3 yng Nghymru y tu hwnt i Fformwla Barnett er mwyn sicrhau bod arian Ewropeaidd yn arian gwirioneddol ychwanegol a bod digon o arian cyfatebol o’r sector cyhoeddus ar gael.

**Gwelliant 3 - Mike German (Dwyrain De Cymru);**

Ychwanegu ar y diwedd:

"Mae'r Cynulliad hwn yn gresynu bod y gyllideb hon

yn methu â chynnig codiadau pensiwn i'r 500,000 o bensiynwyr yng Nghymru

yn gwario £2.65 biliwn ar ostwng treth ar 1 Ebrill, gan olygu bod llai o arian ar gael i'w wario ar wasanaethau cyhoeddus hanfodol."

**Gwelliant 4 - Mike German (Dwyrain De Cymru);**

Ychwanegu ar y diwedd:

"Mae'r Cynulliad hwn yn gresynu bod y gyllideb hon

yn siomi rhannau tlotaf Cymru trwy beidio â chyfeirio at arian cyfatebol Amcan Un

yn mynd i arwain at gynnydd o £10 biliwn yn y diffyg ariannol ar fasnach, gan gosbi'r

diwydiant gweithgynhyrchu a ffermwyr".

Cymerwyd pleidlais:

**Gwelliant 2**

O blaid 30

Ymatal 0

Yn erbyn 24

Cyfanswm 54

**Cymeradwywyd y cynnig.**

**Gwelliant 3**

O blaid 22

Ymatal 0

Yn erbyn 32

Cyfanswm 54

**Gwrthodwyd y gwelliant**

**Gwelliant 4**

O blaid 27

Ymatal 1

Yn erbyn 23

Cyfanswm 51

**Cymeradwywyd y cynnig.**

**Y cynnig, fel y’i diwygiwyd:**

O blaid 22

Ymatal 0

Yn erbyn 32

Cyfanswm 54

**Gwrthodwyd y cynnig (fel y'i diwygiwyd).**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.29pm**

********************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad**

**am 2.00pm ddydd Mercher, 29 Mawrth 2000**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**

**PAPURAU A OSODWYD YN Y SWYDDFA GYFLWYNO ERS CYFARFOD LLAWN DIWETHAF Y CYNULLIAD**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 22 MAWRTH 2000**

Salmon and Freshwater Fisheries Review (Nid oes fersiwn Gymraeg)